


Cyngor Sir Caerfyrddin



Ein Pobl

Gwerthfawrogi Ein Pobl (2014 - 2019)

Drafft Terfynol: Tachwedd 2014



Beth yw Gweledigaeth Strategaeth Ein Pobl?

“Recriwtio, cadw, cydnabod a datblygu'r bobl iawn, sydd â'r sgiliau iawn, ar yr amser iawn i helpu i wireddu'r weledigaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin.”

Mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn rhoi pwysau cynyddol ar gyllid y sector cyhoeddus ac ar yr un pryd mae cynnydd yn y galw am wasanaethau cyhoeddus. Yr her sy'n wynebu Sir Gaerfyrddin a chyrff eraill y sector cyhoeddus yw sut y gellir bodloni'r galw cynyddol am wasanaethau gydag adnoddau sy'n prinhau.

Rydym yn cydnabod fod pobl yn ganolog i bopeth a wnawn ac mae'r Strategaeth Pobl hon yn esbonio sut y bwriadwn wneud y gorau o gyfraniad ein holl staff er mwyn sicrhau ein bod yn llwyddo i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. Mae'r Strategaeth wedi'i llunio gan ein gweledigaeth¹ a'n gwerthoedd², ac mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad i welliant parhaus drwy ymgysylltu'n effeithiol â'n staff, eu harwain a'u cefnogi.

Rydym yn cael ein cydnabod fel sefydliad Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP), ac mae hynny'n golygu ein bod wedi ymrwymo i sicrhau bod y gweithlu'n cael ei arwain a'i reoli'n dda bob amser a'i fod yn cael cefnogaeth i ddarparu gwasanaethau o safon uchel i bobl Sir Gaerfyrddin. Byddwn yn defnyddio'r safon Buddsoddwyr mewn Pobl i'n helpu i fesur pa mor dda rydym yn gweithredu.

Hefyd rydym wedi cael ein cydnabod yng Nghymru fel sefydliad Platinwm am iechyd y gweithle “Y Safon Iechyd Corfforaethol” ac rydym yn cydnabod gwerth buddsoddi yn y gefnogaeth a roddwn i'n staff drwy ein gweithgareddau iechyd a lles.

¹ Gweler Atodiad 1

² Gweler Atodiad 1

Beth yw'r Weledigaeth ar gyfer Ein Pobl?

“Gweithlu blaengar, medrus, cryf ei gymhelliad a gwybodus, sy'n perfformio'n dda ac sy'n falch o weithio i Gyngor Sir Gaerfyrddin, ac sydd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i'r cyhoedd.”

I gyflawni hyn byddwn yn:

- ✓ Sicrhau bod pobl yn cael eu harwain a'u rheoli'n effeithiol
- ✓ Darparu amgylchedd gwaith diogel, iach ac atyniadol, sy'n annog datblygiadau newydd a syniadau ar gyfer gwella fel y gall pawb wneud gwahaniaeth
- ✓ Llwyddo i recriwtio, cadw a datblygu ein gweithwyr er mwyn iddynt gyflawni hyd eithaf eu potensial
- ✓ Cydnabod a gwobrwyo ymddygiad a pherfformiad priodol
- ✓ Gwerthfawrogi a pharchu cyfraniad yr holl weithwyr ar bob lefel ac ym mhob lleoliad ledled y sefydliad
- ✓ Dathlu llwyddiant unigol, adrannol a sefydliadol

I wireddu ein gweledigaeth am bobl, mae ein Strategaeth Pobl yn canolbwyntio ar dair thema sy'n gysylltiedig â'i gilydd:

- ✓ Ymgysylltu â Gweithwyr a'u Lles – **Ymgysylltu â Phobl**
- ✓ Arweinyddiaeth a Rheolaeth – **Arwain Pobl**
- ✓ Cefnogi Trawsnewid a Newid – **Cefnogi Pobl**

Thema 1: Ymgysylltu â Phobl

Rydym yn cydnabod bod pobl yn ganolog i'n llwyddiant wrth gyflawni gwasanaethau o safon yn ystod cyfnod heriol o newid. Felly, mae'n hanfodol fod pobl yn teimlo eu bod yn rhan o bethau ac yn cael eu cymell i wella perfformiad a rhannu syniadau da yn barhaus. Mae'r un mor bwysig bod ein holl bobl yn rhan o sefydliad sy'n gosod gwerth ar amrywiaeth; bod ganddynt amgylchedd gweithio diogel a'u bod yn cael cefnogaeth dda. Bydd y rhan hon yn canolbwyntio ar yr hyn a ymrwymwn i'r gweithlu er mwyn sicrhau bod pobl:

✓ Yn deall ac yn cefnogi gweledigaeth y Cyngor

✓ Yn cael eu cydnabod am berfformio'n dda a bod llwyddiant yn cael ei ddathlu

✓ Yn teimlo'n rhan o sefydliad sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg

✓ Yn disgwyl ac yn derbyn adborth rheolaidd ar eu perfformiad

✓ Yn teimlo'n frwdfrydig, yn ymroddgar a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi

✓ Yn medru rhannu arferion da a dysgu oddi wrth ei gilydd

✓ Yn teimlo'n rhan o sefydliad sy'n sicrhau cydraddoldeb ac sy'n gosod gwerth ar amrywiaeth

✓ Yn teimlo'n rhan o sefydliad sy'n gwrandao ac yn cyfathrebu'n effeithiol

✓ Yn gweithio mewn amgylchedd iach a diogel

Beth sydd angen digwydd?

Beth rydym am ei gyflawni?	I gyflawni hyn bydd ein harweinwyr a'n rheolwyr yn:	Bydd y gefnogaeth ganlynol yn cael ei darparu:
1. Pobl yn deall ac yn cefnogi gweledigaeth y Cyngor	✓ Darparu pwrpas a gweledigaeth eglur ar gyfer y Cyngor y mae'r staff yn ymwybodol ohonynt ac yn eu deall ✓ Sicrhau bod set eglur o werthoedd craidd sy'n cefnogi'r weledigaeth, y mae'r staff yn ymwybodol ohonynt ac yn eu deall ✓ Efelychu'r weledigaeth a'r gwerthoedd craidd gan sicrhau eu bod yn ganolog i ddull gweithredu'r sefydliad ✓ Cynnwys pobl wrth ddatblygu cynlluniau busnes y sefydliad gan sicrhau bod y trafodaethau'n cyd-fynd â gweledigaeth y Cyngor	• Strategaeth Gymunedol Integredig • Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwella (ARIP) • Sefydlu Corfforaethol a Lleol • Fframwaith Rheoli Perfformiad • Fframwaith Helpu Pobl i Berfformio • Fframwaith Goruchwyllo (yn y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol)
2. Pobl yn teimlo'n rhan o sefydliad sy'n gwrando ac yn cyfathrebu'n effeithiol	✓ Darparu cyfleoedd effeithiol i staff fynegi barn ar bethau sydd o bwys iddynt hwy yn y gweithle ✓ Gwrando a gweithredu ar adborth gan bob lefel o'r sefydliad ✓ Parhau i ymgysylltu'n adeiladol â'r Undebau Llafur cydnabyddedig	• Arolygon Staff wedi'u Targedu • Adolygiad Mewnol Buddsoddwyr mewn Pobl • Grŵp Gwella Amrywiaeth • Openzone / Brian • eGair • Fforwm rheolwyr 3ydd haen • Mekanweithiau adrannol e.e. llythyrau newyddion; cyfarfodydd tîm • Grŵp Cysylltiadau â'r Gweithwyr (ERG) • Grŵp Ymgynghori â'r Gweithwyr (ECG) • Fframwaith Helpu Pobl i Berfformio • Fframwaith goruchwyllo (yn y Gwasanaethau Gofal

Beth rydym am ei gyflawni?	I gyflawni hyn bydd ein harweinwyr a'n rheolwyr yn:	Bydd y gefnogaeth ganlynol yn cael ei darparu:
		Cymdeithasol)
3. Pobl yn teimlo'n frwdfrydig, yn ymroddgar a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi	✓ Darparu cyfleoedd i staff herio'n adeiladol y modd mae'r sefydliad yn gweithio ✓ Creu diwylliant lle mae staff yn cael eu hannog a'u galluogi i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ✓ Darparu eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau ✓ Sicrhau mecanweithiau sy'n cael gwared ar fiwrocratiaeth ddiangen ac sy'n caniatáu i bobl wneud pethau gwell	• Trawsnewid i wneud Cynnydd (TIC) - Rhaglen Waith a Chynllun Busnes • Adolygiad Mewnol Buddsoddwyr mewn Pobl • Strwythurau a Phroffiliau Swyddi manwl gywir • Fforwm rheolwyr trydedd haen • Mecanweithiau adrannol e.e. llythyrau newyddion; cyfarfodydd tîm
4. Pobl yn disgwyl ac yn derbyn adborth rheolaidd ar eu perfformiad	✓ Creu amgylchedd lle mae rhoi a derbyn adborth adeiladol yn cael ei werthfawrogi a'i fod yn rhan o ddiwylliant y sefydliad ✓ Darparu cyfleoedd priodol a rheolaidd i staff dderbyn adborth adeiladol ar eu perfformiad ✓ Clustnodi a darparu cyfleoedd datblygu priodol i helpu i wella perfformiad staff a'r sefydliad	• Fframwaith Helpu Pobl i Berfformio • Fframwaith goruchwyllo (yn y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol) • Rhaglen Dysgu a Datblygu • Adborth 360 gradd
5. Pobl yn cael eu cydnabod am berfformio'n dda a bod llwyddiant yn cael ei ddathlu	✓ Deall beth sy'n ysgogi staff a sicrhau bod mecanweithiau gwobrwyio / cydnabod eglur a theg ar waith ✓ Creu amgylchedd lle mae cyfraniadau pawb i'r sefydliad yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi ✓ Gwobrwyio a dathlu llwyddiannau a chyflawniadau unigol ✓ Hyrwyddo buddion staff, sydd ar waith ac sy'n dangos y gwerth a roddwn ar ein staff	• Polisiâu a Chanllawiau Adnoddau Dynol • Cynlluniau buddion e.e. Talebau Gofal Plant • Rhaglen Dysgu a Datblygu • Fframwaith Helpu Pobl i Berfformio • Fframwaith goruchwyllo (yn y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol)
6. Pobl yn medru rhannu arferion da a	✓ Darparu fframwaith ar gyfer rhannu arferion da ✓ Annog pobl i gydweithio a rhannu gwybodaeth o fewn ac	• Fforwm Penaethiaid Gwasanaeth • Cyfnewid Dysgu TIC

Beth rydym am ei gyflawni?	I gyflawni hyn bydd ein harweinwyr a'n rheolwyr yn:	Bydd y gefnogaeth ganlynol yn cael ei darparu:
dysgu oddi wrth ei gilydd	ar draws adrannau	Digwyddiadau rheolwyr trydedd haen
7. Pobl yn gweithio mewn amgylchedd iach a diogel	✓ Bod yn frwd o ran hyrwyddo cydbwysedd priodol rhwng gwaith a bywyd ✓ Creu amgylchedd agored a chefnogol i staff ✓ Sicrhau bod pobl yn cael mynediad i addysg iechyd galwedigaethol a lles ✓ Sicrhau bod pobl yn cael mynediad i rwydweithiau cymorth a chynghor lle bo angen ✓ Ceisio'n barhaus i sicrhau'r presenoldeb gorau posib yn y gwaith gan bawb ✓ Sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi i reoli eu llwyth gwaith ✓ Bod yn gyfrifol am faterion lechyd a Diogelwch ✓ Sicrhau safonau uchel o ran arferion iechyd a diogelwch ledled y Cyngor	• Polisiâu a Chanllawiau Adnoddau Dynol • Fframwaith lechyd a Diogelwch a Lles (wrthi'n cael ei lunio) • Polisi Rheoli Presenoldeb • Tîm Iechyd a Gwaith • Grŵp Llywio Iechyd a Diogelwch Corfforaethol • Grwpiau Llywio Iechyd a Diogelwch Adrannol • Rhaglen Dysgu a Datblygu • Archwiliadau, Adolygiadau ac Arolygiadau Iechyd a Diogelwch
8. Pobl yn teimlo'n rhan o sefydliad sy'n sicrhau cydraddoldeb ac sy'n gosod gwerth ar amrywiaeth	✓ Bod yn frwd o ran parchu ac annog safbwyntiau a dulliau amrywiol ✓ Arwain drwy esiampl a herio ymddygiad amhriodol a gwahaniaethol ✓ Annog a chefnogi staff i gymryd rhan mewn gweithgorau perthnasol ✓ Datblygu a hybu hyrwyddwyr amrywiaeth o fewn adrannau i wella perfformiad	• Rhwydwaith LGBT Cymru Gyfan • Polisiâu a Chanllawiau Adnoddau Dynol • Gweithgor Cydraddoldebau • Grŵp Gwella Amrywiaeth • Rhaglen Dysgu a Datblygu
9. Pobl yn teimlo'n rhan o sefydliad sy'n	✓ Sicrhau bod yr holl staff yn deall statws a safle'r Gymraeg yn y sir	• Gweithgor Cynllun yr Iaith Gymraeg

Beth rydym am ei gyflawni?	I gyflawni hyn bydd ein harweinwyr a'n rheolwyr yn:	Bydd y gefnogaeth ganlynol yn cael ei darparu:
hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg	✓ Ystyried swyddi lle mae'r Gymraeg yn sgil hanfodol ✓ Cefnogi staff i ddysgu Cymraeg neu ddatblygu eu sgiliau ymhellach ✓ Annog staff sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio'u sgiliau yn y gweithle ✓ Datblygu a hybu Hyrwyddwyr y Gymraeg	

Thema 2: Arwain Pobl

Mae'r Cyngor yn ail-lunio ac yn trawsnewid ar gyfer y dyfodol. Mae arnom angen arweinwyr a rheolwyr sy'n gallu arwain y newidiadau hyn a gweld y cyfleoedd a ddaw o ffyrdd newydd a blaengar o feddwl a gweithio. Mae arweinwyr a rheolwyr effeithiol yn ysbrydoli, yn ysgogi ac yn ennyn diddordeb y gweithlu. Maent yn creu diwylliant lle mae creadigrwydd, amrywiaeth ac arloesedd yn ffynnu. Bydd arweinyddiaeth yn cael ei harddangos ym **mhob lefel** o'r sefydliad a bydd perchenogaeth ac atebolrwydd yn amlwg drwy'r sefydliad cyfan. Bydd y rhan hon yn canolbwyntio ar ein harferion o ran arwain a rheoli a'r nod fydd sicrhau bod yr arweinyddiaeth:

✓ *Yn weladwy, yn hawdd mynd atynt ac yn agored i'w herio*

✓ *Yn gwrando, yn adlewyrchu ac yn gweithredu*

✓ *Yn hybu gweledigaeth a chyfeiriad cadarnhaol*

✓ *Yn arwain drwy esiampl, yn gosod safonau ac yn meithrin hyder o fewn y gweithlu*

✓ *Yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn creu cyfleoedd ystyrlon i bobl herio*

✓ *Yn gosod gwerth ar y Gymraeg fel sgil ac yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle*

✓ *Yn dathlu llwyddiant*

Beth sydd angen digwydd?

Beth rydym am ei gyflawni?	I gyflawni hyn bydd ein harweinwyr a'n rheolwyr yn:	Bydd y gefnogaeth ganlynol yn cael ei darparu:
1. Arweinwyr a rheolwyr yn hybu gweledigaeth a chyfeiriad cadarnhaol	✓ Dangos arddulliau ac ymddygiadau arwain sy'n cael effaith gadarnhaol ar ennyn diddordeb y gweithlu a'i ysgogi	• Rhaglen Dysgu a Datblygu
2. Arweinwyr a rheolwyr yn weladwy, yn hawdd mynd atynt ac yn agored i'w herio	✓ Datblygu eu hunain yn barhaus	• Pecyn Asesu Rheolwyr Sir Gaerfyrddin (CMAT)
3. Arweinwyr a rheolwyr yn rhoi gwerth ar amrywiaeth ac yn creu cyfleoedd ystyrlon i bobl herio	✓ Cael cyfleoedd priodol i ddatblygu	• Polisiau a Chanllawiau Adnoddau Dynol
4. Arweinwyr a rheolwyr yn rhoi gwerth ar y Gymraeg fel sgil ac yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle	✓ Creu amgylchedd lle mae pawb yn cael eu hannog i ddatblygu galluedd arwain	• Adolygiad Mewnol BmP ³
5. Arweinwyr a rheolwyr yn gwrando, yn adlewyrchu ac yn gweithredu	✓ Rheoli perfformiad yn effeithiol	• Safon Arweinyddiaeth a Rheolaeth (wrthi'n cael ei lunio)
6. Arweinwyr a rheolwyr yn arwain drwy esiampl, yn gosod safonau ac yn meithrin hyder o fewn y gweithlu		• Resourcelink
7. Arweinwyr a rheolwyr yn dathlu llwyddiant		• Gwybodaeth Rheoli Pobl
		• Eframwaith Rheoli Perfformiad

³Buddsoddwyr mewn Pobl

Thema 3: Cefnogi Pobl

Rydym yn gweithredu mewn amgylchedd sy'n newid yn barhaus a thros y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt byddwn yn wynebu heriau na welwyd mo'u tebyg o'r blaen, a fydd yn arwain at newid sylweddol i'r sefydliad. Mae'n hanfodol ein bod yn recriwtio, yn cadw ac yn lleoli'r nifer iawn o bobl yn y lle iawn i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. Hefyd bydd angen inni fynd ati mewn modd sylfaenol i herio pam a sut rydym yn darparu gwasanaethau a fydd yn golygu newidiadau sylweddol yn ein dulliau o ddarparu gwasanaethau ac yn y strwythurau sefydliadol. Bydd y rhan hon yn canolbwyntio ar gefnogi pobl er mwyn sicrhau bod gennym weithlu sydd:

✓ *Yn hyblyg ac yn greadigol ac yn diwallu anghenion y sefydliad wrth iddo symud yn ei flaen*

✓ *Yn meddu ar y sgiliau priodol*

✓ *Yn dra gwybodus ac yn gallu ysgogi ac ymateb i newid mewn modd cadarnhaol*

✓ *Yn cael cyfle i herio ac yn teimlo'n hyderus ac wedi'u grymuso i roi cynnig ar bethau newydd*

✓ *Yn teimlo bod gwerth yn cael ei osod ar amrywiaeth a'u bod yn gallu cyfrannu mewn modd cadarnhaol yn y gweithle*

Beth sydd angen digwydd?

Beth rydym am ei gyflawni?	I gyflawni hyn bydd ein harweinwyr a'n rheolwyr yn:	Bydd y gefnogaeth ganlynol yn cael ei darparu:
1. Gweithlu hyblyg a chreadigol sy'n diwallu anghenion y sefydliad	✓ Creu amgylchedd lle mae creadigrwydd ac arloesedd yn cael eu hannog a'u cefnogi ✓ Annog arbrofi a ffyrdd newydd o weithio ✓ Archwilio gwahanol ffyrdd o weithio gan gynnwys manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gydweithio ✓ Hyrwyddo'r amrywiaeth o ddewisiadau sydd ar gael i staff a allai fod yn dymuno gweithio'n fwy hyblyg, cymryd seibiannau gyrfa neu ymddeol yn gynnar ✓ Sicrhau bod prosesau cynllunio gweithlu ar waith i gefnogi ein gweithgareddau cynllunio olyniaeth ✓ Archwilio ffyrdd o ddarparu gwasanaethau sy'n ein helpu i leihau ein gweithlu drwy ddulliau gwirfoddol	• Timoedd Adnoddau Dynol • Polisiau a Chanllawiau Adnoddau Dynol • Panel Adolygu Newid • Rhaglen Dysgu a Datblygu • Tîm Iechyd a Gwaith
2. Gweithlu tra gwybodus sy'n gallu ysgogi ac ymateb i newid mewn modd cadarnhaol	✓ Creu amgylchedd agored a gonest lle mae staff yn ganolog i bob cynllun ar gyfer newid ✓ Cael cefnogaeth i gyflawni rhaglen o newidiadau sefydliadol sy'n effeithiol ac sy'n cyflawni ein prif amcanion o ran effeithlonrwydd a chydweithredu ✓ Bod yn gymwys i reoli pobl yn effeithiol drwy raglenni o newid mawr ✓ Cefnogi staff a effeithir gan bob agwedd ar newid sefydliadol	• Rhaglen Dysgu a Datblygu • Timoedd Adnoddau Dynol • Tîm Iechyd a Gwaith • Tîm Ymgynghoriaeth • Trawsnewid i wneud Cynnydd (TIC) - Rhaglen Waith a Chynllun Busnes • Polisi o ran newid trefniadaeth
3. Gweithlu sydd â'r sgiliau priodol ac sydd wedi'i ddatblygu'n briodol	✓ Cael prosesau a chynghor recriwtio cadarn ✓ Sicrhau bod gennym weithlu talentog ac amrywiol sy'n gallu cyflawni gweledigaeth y Cyngor ✓ Annog staff i ddatblygu ac i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y	• Tîm Dysgu a Datblygu Strategaeth Ddysgu a Datblygu Gorfforaethol • Fframwaith Helpu Pobl i Berfformio • Gweithgor yr Iaith Gymraeg

Beth rydym am ei gyflawni?	I gyflawni hyn bydd ein harweinwyr a'n rheolwyr yn:	Bydd y gefnogaeth ganlynol yn cael ei darparu:
	gweithle ✓ Annog ac ysgogi eraill i wneud y defnydd gorau o'u galluoedd ✓ Cynorthwyo staff i glustnodi anghenion dysgu a datblygu ac archwilio dulliau hyblyg o gefnogi'r datblygiad ✓ Darparu adborth adeiladol i wella perfformiad yn y dyfodol ✓ Anelu at ddatblygu gwell llwybrau gyrfa	• Fframwaith goruchwyllo (yn y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol) • Cymorth hyfforddi a mentora (i'w ddatblygu ymhellach)
4. Gweithlu sy'n cael cyfle i herio ac sy'n teimlo'n hyderus ac wedi'u grymuso i roi cynnig ar bethau newydd	✓ Sicrhau bod mecanweithiau ar waith i greu amgylchedd lle mae pawb yn cael eu hannog i gyfrannu syniadau ar gyfer gwella ✓ Darparu cyfleoedd i'r holl staff deimlo eu bod yn rhan o bethau a dylanwadu ar wella'r gwasanaethau ✓ Clustnodi a lleihau rhwystrau i ragoriaeth cymaint â phosibl	• Fframwaith Helpu Pobl i Berfformio • Fframwaith goruchwyllo (yn y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol) • Rhaglen Waith TIC
5. Gweithlu sy'n teimlo bod gwerth yn cael ei osod ar amrywiaeth a'u bod yn gallu cyfrannu mewn modd cadarnhaol yn y gweithle	✓ Cydnabod gwahanol anghenion pobl a sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad priodol a theg i'r cymorth sydd ei angen arnynt ✓ Sicrhau bod cyfle cyfartal i bobl ddysgu a datblygu ✓ Anelu at ddatblygu a chynnal gweithlu amrywiol sy'n cynrychioli cymunedau lleol ✓ Annog pob gweithiwr i gydnabod a herio gwahaniaethu a rhagfarn	• Grŵp Gwella Amrywiaeth • Gweithgor Cydraddoldebau • Stonewall • Asesu Cymheiriaid CLILC • Hyrwyddwyr Cydraddoldeb Adrannol • Rhaglen Dysgu a Datblygu • Gwybodaeth i Reolwyr (Resourcelink) • Ymgynghoriaeth

Beth yw gweledigaeth y Cyngor? - Sir Gaerfyrddin sy'n galluogi pobl i fyw bywydau iach a chyflawn trwy gydweithio i adeiladu cymunedau cryf, dwyieithog a chynaliadwy. (Ffynhonnell: Strategaeth Gymunedol Integredig – 2011/16)

Beth yw gwerthoedd craidd y Cyngor?

1. **Bod yn Agored, Ymddiriedaeth, Didwylledd, Gonestrwydd** - Rydym yn credu mewn bod yn agored a gonest wrth ymwneud â'r cyhoedd; byddwn yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr i'r cyhoedd am ein gwasanaethau, fel y gallant farnu pa mor dda yw ein perfformiad
2. **Rhoi'r flaenoriaeth i Gwsmeriaid** - Byddwn yn sicrhau bod anghenion ein cwsmeriaid yn ganolog i bopeth a wnawn. Byddwn yn trin pobl â pharch bob amser
3. **Gwrando a chyflawni Addewidion** - Rydym yn sefydliad sy'n gwrando, ac sy'n ymgynghori cyn gwneud penderfyniadau pwysig. Wedi dod i benderfyniad, rydym yn cyflawni'n haddewidion. Rydym yn credu mewn arweinyddiaeth glir, gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth, craffu cadarn ac anrhydeddu'n hymrwymiaidau
4. **Gweithio mewn Partneriaeth** - Rydym yn credu mewn partneriaeth - meddwl gyda'n gilydd a gweithredu gyda'n gilydd. Byddwn yn ymdrechu i osgoi dyblygu a gwastraffu ymdrechion trwy gydweithio'n agos â'n partneriaid, y sector gwirfoddol, yr undebau llafur a'r gymuned leol
5. **Gwerthfawrogi ein Staff - Ni allwn gyflawni dim heb ymdrechion ein staff - nhw sy'n gyfrifol am ein llwyddiant. Byddwn yn cefnogi, yn canmol ac yn buddsoddi yn ein gweithlu i gyflawni safonau uwch wrth gyflwyno gwasanaethau**
6. **Sicrhau Cyfle Cyfartal** - Rydym yn gosod gwerth ar amrywiaeth ac yn cydnabod cyfraniad unigryw pob aelod o'n cymuned. Byddwn yn cynnig yr un gwasanaeth i'n holl gwsmeriaid a'r gymuned, ac yn ymdrechu i sicrhau bod gan bawb yr un hawl iau mynediad at ein holl wasanaethau
7. **Trin Pobl a'r Amgylchedd â Pharch** - Ein nod yw arwain ym maes cynaliadwyedd – gwella ansawdd bywyd ar gyfer pobl leol, ar yr un pryd ag arbed adnoddau'r ddaear a diogelu'r amgylchedd
8. **Gwella ein Gwasanaethau** - Byddwn yn ymdrechu i wella'n gwasanaethau'n barhaus; rydym yn sefydliad blaengar sy'n chwilio'n barhaus am ffyrdd newydd a gwell o gyflwyno'n gwasanaethau